Yr Asiantaeth yn cyhoeddi canllawiau ar gyfer defnyddwyr ar y coronafeirws (COVID-19)

Heddiw, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wedi cyhoeddi canllawiau newydd i helpu defnyddwyr i ddeall mwy am COVID-19 a bwyd.

Mae'r canllawiau'n ymdrin ag ystod o faterion gan gynnwys hylendid bwyd, deunydd pecynnu bwyd a phellter cymdeithasol wrth siopa. Maent hefyd yn cynnwys cyngor ar storio bwyd gartref, er mwyn helpu pobl i reoli bwyd dros ben ac osgoi gwastraff.

Mae cyngor yr ASB yn glir ei bod yn parhau i fod yn annhebygol iawn y gall pobl ddal COVID-19 o fwyd. Mae COVID-19 yn salwch anadlol ac nid yw'n hysbys ei fod yn cael ei drosglwyddo trwy ddod i gysylltiad â bwyd na deunydd pecynnu bwyd.

Mae'r ASB yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant a phartneriaid eraill i sicrhau bod cyflenwad bwyd y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn ddiogel a bod y cyhoedd yn cael y cyngor diogelwch diweddaraf.
Mae'r canllawiau ar gael ar GOV.UK (Saesneg yn unig gan eu bod yn byw ar lwyfan GOV.UK).